Geirfa

Mae'r telerau diffiniedig canlynol yn berthnasol yn y ddogfen ymgynghori hon. Nid ydynt yn ddiffiniadau cyfreithiol arfaethedig ac nid ydynt yn newid unrhyw ddiffiniadau deddfwriaethol presennol.

Term	Diffiniad
ATRm	Model Cofrestru Trosiannol Amgen
CLP Prydain Fawr	Mae'n golygu Rheoliad Cymhathu (CE) Rhif 1272/2008 ar ddosbarthu, labelu a phecynnu sylweddau a chymysgeddau, fel y'i diwygiwyd ar gyfer Prydain Fawr.
CLP yr UE	Mae'n golygu Rheoliad (EC) Rhif 1272/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 16 Rhagfyr 2008 ar ddosbarthu, labelu a phecynnu sylweddau a chymysgeddau, fel y mae'n cael effaith yng nghyfraith yr UE
CSA	Asesiad ar Ddiogelwch Cemegau
CSR	Adroddiad ar Ddiogelwch Cemegau
Darpariaethau trosiannol	Mesurau cyfreithiol a roddir i unigolion cofrestredig sylweddau trosiannol i hwyluso'r broses o bontio o REACH yr UE i REACH y DU.
Defnydd a chysylltiad	Mae defnydd yn ymwneud â sut a ble mae cemegau yn cael eu defnyddio. Mae cysylltiad yn ymwneud â chyswllt dynol ac amgylcheddol â chemegyn yn ystod pob cam o'i gylch bywyd.
Defnyddiwr Ymhellach i Lawr y Gadwyn Gyflenwi	Unrhyw berson naturiol neu gyfreithiol a sefydlwyd ym Mhrydain Fawr, ac eithrio'r gwneuthurwr neu'r mewnforiwr, sy'n defnyddio sylwedd, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cymysgedd, yn ystod ei weithgareddau diwydiannol neu broffesiynol. Nid yw dosbarthwr na defnyddiwr yn ddefnyddiwr ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi. Ystyrir bod ail-fewnforiwr sydd wedi'i eithrio yn unol ag Erthygl 2(7)(c) yn ddefnyddiwr ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi

Diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu	11pm ar 31 Rhagfyr 2020, sef diwedd y cyfnod gweithredu ar ôl i'r DU adael yr UE.
DMEL	Lefel Effaith Fach Deilliedig
DNEL	Lefel Dim Effaith Deilliedig
Dosbarthiadau peryglon	Defnyddio meini prawf ar gyfer diffinio a disgrifio ystod o beryglon ffisicogemegol, iechyd ac amgylcheddol sylweddau a chymysgeddau.
Dosbarthwr	Unrhyw berson naturiol neu gyfreithiol a sefydlwyd ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys manwerthwr, sydd ond yn storio ac yn rhoi sylwedd ar y farchnad, ar ei ben ei hun neu mewn cymysgedd, ar gyfer trydydd partïon
DUIN	Hysbysiad Mewnforio Defnyddiwr Ymhellach i Lawr y Gadwyn Gyflenwi
ECHA	Yr Asiantaeth Gemegau Ewropeaidd
EEA	Ardal Economaidd Ewropeaidd
Grwpiau Sylweddau	Fforwm o unigolion cofrestredig a darpar unigolion cofrestredig sy'n gweithgynhyrchu neu'n mewnforio, neu sy'n bwriadu gweithgynhyrchu neu fewnforio, yr un sylwedd, a sefydlwyd i gytuno ar ddosbarthiad a labelu'r sylwedd ac i hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng unigolion cofrestredig at unrhyw un o'r dibenion a grybwyllir yn Erthygl 25A(3).
Gwerthusiadau trosiannol	Penderfyniadau rheoleiddio arfaethedig newydd wedi'u hanelu at ddeiliaid dyletswydd y diwydiant sy'n mynnu eu bod yn darparu gwybodaeth benodol ar ôl cofrestru am y tro cyntaf.
Hawl Taid	Y broses a oedd yn caniatáu i ddeiliaid presennol cofrestriadau REACH yr UE gyflwyno gwybodaeth ragarweiniol gychwynnol am eu sylweddau, er mwyn caniatáu parhad cyflenwad tan y dyddiadau cau cofrestru llawn.
HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Mewnforio trosiannol wedi'i ddiogelu	Bod sylwedd yn cael ei fewnforio i Brydain Fawr gan ddefnyddiwr neu ddosbarthwr ymhellach i lawr y

	gadwyn gyflenwi a elwodd o'r trefniadau trosiannol yn Erthygl 127E REACH y DU, gan ganiatáu mewnforio parhaus tra bo gofynion cofrestru'n cael eu cwblhau.
NRES	Unigolion Cofrestredig Newydd ar gyfer Sylweddau Presennol. Mae'r unigolion cofrestredig hyn yn newydd-ddyfodiaid i farchnad Prydain Fawr nad oeddent yn rhan o gadwyn gyflenwi o dan REACH yr UE.
PBT	Sylweddau sy'n Barhaus, Biogronnol a Gwenwynig yn unol â'r meini prawf yn Atodiad 13 REACH y DU.
PNEC	Crynodiad Dim Effaith a Ragwelir
REACH y DU	Rheoliad Cymhathu (EC) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH), sefydlu Asiantaeth Gemegau Ewropeaidd, diwygio Cyfarwyddeb 1999/45/EC a diddymu Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 793/93 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1488/94 yn ogystal â Chyfarwyddeb y Cyngor 76/769/EEC a Chyfarwyddebau'r Comisiwn 91/155/EEC, 93/67/EEC, 93/105/EC a 2000/21/EC, sydd ar gael yma [link].
RoW	Gweddill y Byd
Rhyngolyn unigol ar y safle	Sylwedd sy'n cael ei weithgynhyrchu a'i ddefnyddio ar gyfer prosesu cemegol neu sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prosesu cemegol er mwyn cael ei drawsnewid yn sylwedd arall, y mae ei synthesis yn digwydd ar yr un safle sy'n cael ei weithredu gan un endid cyfreithiol neu fwy.
Sylwedd sy'n bodoli eisoes	Mae sylwedd presennol yn sylwedd a gofrestrwyd o dan REACH yr UE ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu
Sylweddau newydd	Sylwedd newydd yw sylwedd a gofrestrwyd o dan REACH yr UE neu'r DU am y tro cyntaf ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.
Sylweddau trosiannol	Sylweddau sy'n gallu bod yn destun cofrestriad Taid neu NRES neu sydd wedi'u cynnwys mewn DUIN.
Unigolion cofrestredig trosiannol	Unigolion cofrestredig REACH y DU o sylweddau trosiannol, gan gynnwys cofrestriadau taid,

	cofrestriadau NRES a mewnforion trosiannol gwarchodedig (DUINs).
vPvB	Parhaus lawn a Biogronnol lawn, yn unol â'r meini prawf yn Atodiad 13 REACH y DU.
Yr Asiantaeth	Mae swyddogaethau a phwerau'r Asiantaeth wedi'u pennu o dan Erthygl 2A REACH y DU i fod yn swyddogaethau ac yn bwerau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Yn unol â hynny, rhaid darllen unrhyw gyfeiriad at yr Asiantaeth yn neddfwriaeth REACH y DU a'r ymgynghoriad hwn fel un sy'n golygu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.